

## Catchphrase 2003: Ysbyty Brynaber - Week 27

### Key language

**Mae eisiau ... arna i**  
**Emphatic sentences**  
**Yn ôl/I nôl/Nôl**

### New Words

|                |                        |
|----------------|------------------------|
| golau          | light                  |
| rhywiol        | sexy                   |
| trafferth      | trouble                |
| nifer o        | a number of            |
| amau           | to doubt               |
| pyllgorau      | committees             |
| chwaith        | either                 |
| sylweddoli     | to realise             |
| mynnu          | to insist              |
| pwysu          | to weigh               |
| cwato (SW)     | to hide                |
| boddi gofidiau | to drown one's sorrows |
| cyfrifol       | responsible            |
| haeddu         | to deserve             |
| esgus          | excuse                 |
| gwynto (SW)    | to smell               |
| yn weddill     | remaining              |
| drys fy mhen i | doing my head in       |
| pigo           | to pick                |
| tunelli        | tons                   |
| gwithio        | to push                |
| llwyddo        | to succeed             |
| dal i          | to continue to         |
| call           | sensible               |
| cynnig         | to offer               |
| dathlu         | to celebrate           |
| haeddu         | to deserve             |
| sbeitlyd       | spiteful               |
| camddeall      | to misunderstand       |
| yn llwyr       | completely             |

Arwyn has been planning a weekend for himself and Jenny in Venice. When he tells Jenny of his plan she responds that she's not sure whether she wants to go at all. Her response amazes Arwyn.

### Main Grammatical Points

#### Eisiau

Eisiau is the word in Welsh for to want. In north Wales it's pronounced isio

Brian says Dwy't ti ddim isio gwybod - You don't want to know

and Roedd hi isio siarad am yr achos llys yr wythnos nesa - She wanted to talk about the court case next week.

In south Wales it's pronounced isie. People in south Wales use another word for eisiau - which is moyn

Dw i'n moyn mynd

I want to go

Notice that when eisiau is used with 'Mae', 'Roedd' or 'Bydd', followed by the preposition ar, the meaning changes.

Arwyn says about his mother: 'Mae eisie cwmni arni hi' which means She needs company

Roedd eisiau newid arna i - I needed a change

Bydd eisiau cot law arnat ti - You'll need a raincoat

Note the idiom

Mae eisiau bwyd arna i literally means I need food  
or

I'm hungry - Mae eisiau bwyd arna i.

### **Emphatic Sentences**

Jenny asks Agnes when discussing Brian's late nights

Wedi bod allan yn yfed oedd o?

Note the order of the question

In the question form you would expect the verb to come at the beginning of the sentence;

Oedd o wedi bod allan yn yfed?

The answers being Oedd or Nac oedd

However, when an element of a sentence needs to be emphasised, that element is placed at the beginning.

'Wedi bod allan yn yfed oedd o' emphasises the fact that he had been out drinking.

The answer to an emphatic question of this kind is 'Ie' or 'Nage'.

Another example of an emphatic sentence is when Brian says:

Uwd oedden ni'n gael i fwyta i frechwast - It was porridge that we had to eat for breakfast

### **Yn ôl/I nôl/Nôl**

Note the different meanings of 'yn ôl' or 'nôl'.

Brain says: Mae hi'n braf bod yn ôl - It's good to be back.

Agnes replies: Mae'n braf dy gael di'n ôl - It's good to have you back.

I nôl means to fetch.

Dw i'n mynd i nôl llaeth - I'm going to fetch some milk.

Another meaning that you might come across for 'yn ôl' is: according to

Yn ôl Brian, bydd popeth yn iawn - According to Brian, everything will be fine

## Ysbyty Brynaber: Episode 78

Brian calls to see Wendy. They discuss the impending court case.

Brian arrives home at a quarter to one in the morning. He spins his usual yarns and his wife believes him yet again.

### Geirfa

|            |             |
|------------|-------------|
| golau      | light       |
| rhywiol    | sexy        |
| trafferth  | trouble     |
| nifer o    | a number of |
| amau       | to doubt    |
| pwyllgorau | committees  |
| chwaith    | either      |
| sylweddoli | to realise  |
| mynnu      | to insist   |

### Golygfa 1

Wendy - Hei! Stop! Stop it now!

Brian - Wendy - tyrd yma...

Wendy - Gad i fi roi'r golau ymlaen gyntaf...

Brian - Na, na. Gad y golau i ffwrdd...

Wendy - Stop it now you lusty beast!

Brian - Dw i wedi bod yn edrych arnat ti trwy'r nos...

Wendy - Dw i'n gwbod...In that wine bar...I could see your little weasel eyes undressing me and sexually roaming all over me, all evening...

Brian - Ti mor rhywiol...

Wendy - You're a real ladies man, Brian Rees.

Brian - Fe ddylen ni gael mwy o amser efo'n gilydd...

Wendy - We could have tonight...If you hadn't been so late in coming over this evening...

Brian - Ges i drafferth...

Wendy - Trafferth? Pa fath o drafferth?

Brian - Ti ddim eisiau gwybod...

Wendy - Ydw...Beth?

Brian - Ges i alwad ffôn gan Cathy Davies...

Wendy - Your solicitor?

Brian - Ia. Dyna ti. Roedd hi eisiau siarad am yr achos llys yr wythnos nesa...

Wendy - Oedd yna problem 'te?

Brian - Rhyw fater...technegol..

Wendy - Technegol?

Brian - Technicality...Mae'r Inland Revenue a'r Customs and Excise wedi codi nifer o bwyntiau...Ac roedd Cathy eisiau mynd trostyn nhw hefo fi...

Wendy - Is it serious?

Brian - Na...Dim felly...

Wendy - You will get off won't you, Bri? ... Ti am ateb fi 'te?

Brian - Gwnaf...Wrth gwrs y gwna i...

Wendy - Ti ddim yn swnio'n rhy siwr i fi...

Brian - Dw i'n siwr...Well i fi fynd nôl, ti'n gwbod.

Wendy - Nawr?

Brian - Ie.

Wendy - Ond dim ond newydd ddod nôl i'r fflat yma ydyn ni...

Brian - Dw i ddim eisiau i Agnes gael achos i ddechrau amau...

Wendy - Wnaiff hi ddim...

Brian - Mae hi'n holi digon fel mae hi...

Wendy - Ydy hi? Holi am beth 'te?

Brian - Pam ydw i'n gorfod mynd allan mor amal?

Wendy - A beth wyt ti'n ddweud wrthi hi?

Brian - Bod gen i bethau i wneud...Cwsmeriaid i gadw'n hapus...Pwyllgorau ac ati...  
Wendy - Ac ydy Agnes yn dy gredu ti?  
Brian - Bob tro...Ond dw i ddim eisiau pwshio'n lwc chwaith...  
Wendy - Pam na wnei di jest ei gadel hi, Bri?

## Golygfa 2

Agnes - Brian? Brian? Ti sydd yna?  
Brian - Sssssh!  
Agnes - Ble wyt ti wedi bod?  
Brian - Allan.  
Agnes - Dw i'n gwybod hynny...Ti'n sylweddoli faint o'r gloch yw hi?  
Brian - Na...Faint?  
Agnes - Bron yn chwarter i un...Ble wyt ti wedi bod tan nawr?  
Brian - Gwaith...  
Agnes - Tan nawr?  
Brian - Na, ddim i gyd...Ond ges i sêl...Ac es i â'r boi am ddrinc...  
Agnes - Drinc?  
Brian - Drincs ...  
Agnes - Pam aros mas mor hwyr?  
Brian - Fo oedd yn dal ati i siarad...  
Agnes - Pam ddwedaist ti ddim fod gwraig a teulu gyda ti i fynd nôl atyn nhw?  
Brian - Fo oedd o'n mynnu codi rownd arall...  
Agnes - Mae hyn mor annheg, Brian...Annheg arnot ti ac arno i...  
Brian - Dw i'n gwbod, cariad...  
Agnes - Mae gwaith gyda fi yn y bore...Ond ti'n gwybod bod fi'n methu mynd i gysgu os nad wyt ti nôl yn y ty yma...  
Brian - Dw i'n nôl yma rwan on'd ydw i?  
Agnes - Ac ar ben popeth dwyt ti angen dy gwsg...Rwyd ti angen lot o egni i wynebu beth sydd o dy flaen di yn y llys yna yr wythnos nesaf...  
Brian - Mae hi'n braf bod nôl...  
Agnes - Mae hi mor braf dy gael di yn ôl. Dw i'n beco, Brian...  
Brian - Am beth?  
Agnes - Beth wyt ti'n feddwl? Yr achos llys yma...  
Brian - Fydd bob dim yn iawn...  
Agnes - Digon hawdd i ti ddweud hynna...Ond dwyt ti ddim yn gwybod wyt ti?  
Brian - Na...  
Agnes - Na. Yn gwmws. Does dim dal beth all ddigwydd...  
Brian - Tria fynd i gysgu rwan...  
Agnes - O leia mae hi'n haws nawr bod ti yma gyda fi...  
Brian - Nos da...  
Agnes - Dw i wir ddim yn gwybod beth fydden i'n wneud hebddot ti, Brei...

## Ysbyty Brynaber: Episode 79

Agnes tells Jenny about her concern for Brian and the outcome of the court case.

Wendy and Brian meet in a local pub.

Arwyn and Jenny are still at loggerheads over Arwyn's mother.

### Geirfa

|                 |                        |
|-----------------|------------------------|
| pwysu           | to weigh               |
| cwato (SW)      | to hide                |
| boddi gofidiau  | to drown one's sorrows |
| cyfrifol        | responsible            |
| haeddu          | to deserve             |
| esgus           | excuse                 |
| gwynto (SW)     | to smell               |
| yn weddill      | remaining              |
| drysu fy mhen i | doing my head in       |

### Golygfa 1

Jenny - Agnes? Rwyf ti'n edrych yn bell i ffwrdd...

Agnes - Sori...

Jenny - Oes rhywun yn eistedd fan hyn?

Agnes - Na, na...Neb...Na, eistedd...

Jenny - Diolch. Ti'n edrych wedi blino, Agnes.

Agnes - Ydw i?

Jenny - Wyt...

Agnes - Yr achos llys yma sy'n pwysu ar fy meddwl i...

Jenny - Paid â phoeni...Bydd y cwbl drosodd erbyn diwedd yr wythnos nesa...

Agnes - Bydd. Fe fydd y cwbl drosodd...

Jenny - Sut mae Brian?

Agnes - O.K. Dw i'n gwbod ei fod e'n poeni - ond mae e'n trio cwato'r cyfan oddi wrtho i...

Jenny - Dydy o ddim eisiau i ti boeni, mae'n rhaid.. Ydy o'n mynd allan cymaint ag yr oedd o?

Agnes - Ydy...Roedd e mas tan un o'r gloch neithiwr.

Jenny - Un o'r gloch?

Agnes - Oedd...Ac yn drewi o gwrw...

Jenny - Wedi bod allan yn yfed oedd o?

Agnes - Ie...Yn boddi ei ofidiau...Mae e dan straen ofnadwy...

Jenny - Ydy, wrth gwrs...

Agnes - Ond mae e mor ddewr, ti'n gwybod...Y crwc Jac Whelan yna sydd ar fai am hyn ...Fe sydd yn gyfrifol am gael Brian i drwbwl...Rhoi ceir wedi eu dwggyd iddo fe i'w gwerthu...

Jenny - A doedd Brian yn amau dim?

Agnes - Dim...

Jenny - Gobeithio caiff Whelan ei gosbi...

Agnes - Ie. Achos mae e'n haeddu popeth mae e'n gael... Os aiff Brian i'r jail...Wel, dw i ddim yn gwybod beth wnaif fi, Jenny...Dw i'n credu af fi'n bishis...

### Golygfa 2

Brian - Iechyd da!

Wendy - Iechyd da! Wel?

Brian - Wel, be?

Wendy - Ges ti 'ram-dam' gan Agnes neithwr?

Brian - 'Ram-dam'? Naddo...Pam?

Wendy - Oedd hi'n yffach o hwyr arnat ti'n gadael fy fflat i...Pryd gyrhaeddest ti nôl gartre?

Brian - Tua chwarter i un...

Wendy - Oedd hi'n aros lan amdanat ti?

Brian - Na...Roedd Agnes yn darllen yn y gwely...

Wendy - Smo hi'n dy holi di 'te?  
 Brian - Ydy...Mae hi...  
 Wendy - A beth wyt ti'n ddweud wrthi?  
 Brian - Rhyw esgus...Fy mod i wedi gorfod cyfarfod cwsmer...  
 Wendy - Smo hi'n gallu gwynto cwrw arnat ti 'te?  
 Brian - Ydy...Ond yn fy ngwaith i...Gwerthu ceir...Dw i wastad yn cyfarfod pobol mewn tafarndai...  
 Wendy - A smo Agnes yn amau dim?  
 Brian - Dim...  
 Wendy - Ti'n 'cocky' iawn.  
 Brian - Mae gen i reswm i deimlo yn 'cocky' on'd oes?  
 Wendy - Oes e? Pam?  
 Brian - Pam wyt ti'n meddwl?  
 Wendy - Does dim syniad gyda fi...  
 Brian - Dw i'n eistedd yn fan yma yng nghwmni hogan ifanc, smart fel ti on'd ydw i? On'd ydw i'n foi lwcus...?  
 Brian - Pam wyt ti'n chwerthin? Beth ydy'r jôc?  
 Wendy - Ti. Ti sy'n gwneud i fi chwerthin, Brei...Ti'n gwneud i fi deimlo mor hapus...  
 Brian - Dw i'n falch o glywed hynny, Wendy.

### Golygfa 3

Arwyn - Jenny? Beth wyt ti'n wneud fan hyn yn y gegin ar ben dy hunan?  
 Jenny - Be wyt ti'n feddwl dw i'n wneud? Alla i ddim eistedd mewn ystafall hefo'r teledu mor uchel a hynna...  
 Arwyn - Mam sydd damaid bach yn fyddar...  
 Jenny - Pam na aiff hi i'w llofft 'te? Mae teledu yn fan honno...  
 Arwyn - Chwarae teg nawr...Ond mae eisiau cwmni arni hi...  
 Jenny - Dyna ni 'te...  
 Arwyn - A smo hi wedi'n gweld ni'n dau trwy'r dydd...Dere drwyddo nawr...  
 Jenny - Na.  
 Arwyn - Plis.  
 Jenny - Na...  
 Arwyn - Edrycha...Ti'n gwybod cymaint mae Mam yn mwynhau Pobol y Cwm...Dere i eistedd gyda ni.  
 Jenny - Mae'r swm yn rhy uchel, Arwyn!  
 Arwyn - Dim ond rhyw ddeg munud o'r rhaglen sy'n weddill...A dyna'r unig raglen mae Mam yn edrych arni bob nos...  
 Jenny - Dweud wrtha i pan fydd hi wedi gorffen...  
 Arwyn - A ddoi di mewn i eistedd gyda ni wedyn?  
 Jenny - Na. Dw i'n meddwl yr af fi i nofio...  
 Arwyn - Nofio? Nawr?  
 Jenny - Ia. Unrhyw beth i osgoi noson arall o wrando ar dy fam di yn drysu mhen i, Arwyn.  
 Arwyn - Ti'n annheg nawr.  
 Jenny - Ty pwy ydy hwn? Ei thy hi? Neu dy dy di a fi?  
 Arwyn - Paid â bod yn blentynaid...rwy'ti'n gwybod beth yw'r ateb...  
 Jenny - Os hynny: wnei di ddweud wrtha i os gweli di'n dda, Arwyn: ond pryd caf i fy nhy i'n nôl i mi fy hun?

## Ysbyty Brynaber: Episode 80

Agnes, Brian and Wendy are at the supermarket. They meet Wendy Keating. Agnes in all innocence introduces Wendy to Brian.

Arwyn and Jenny have a war of words over Venice and Arwyn's mother.

### Geirfa

|           |                  |
|-----------|------------------|
| pigo      | to pick          |
| tunelli   | tons             |
| gwthio    | to push          |
| llwyddo   | to succeed       |
| dal i     | to continue to   |
| call      | sensible         |
| cynnig    | to offer         |
| dathlu    | to celebrate     |
| haeddu    | to deserve       |
| sbeitlyd  | spiteful         |
| camddeall | to misunderstand |
| yn llwyr  | completely       |

### Golygfa 1

Agnes - Gofalus nawr, Rhodri...

Brian - Ie, Rhodri...Gwranda ar dy fam...

Agnes - Dere mewn i'r car...Sa i eisiau iti gael dy fwrw i lawr gan y traffig yma...

Rhodri - Paid â ffyshian gymaint, Mam....

Brian - Rhodri! Gwna fel mae dy fam yn ddweud - a cer i mewn i'r car at Beca!

Rhodri - Pam ydych chi'n pigo arna i trwy'r amser?

Brian - Dydyn ni ddim yn pigo...

Rhodri - Ydych! Chi'n pigo arno i!

Agnes - Smo ni'n pigo arnot ti!

Rhodri - Chi yn pigo arno i!

Brian - Pe taset ti'n gwrando fwy a gwneud fel rydan ni'n dweud wrthot ti am wneud - fasai dim rhaid i ni bigo cymaint arnat ti!

Agnes - Nawr cer i mewn i'r car! Yffach! Mae'r crwt yna'n gallu bod yn benstiff weithiau...

Brian - Oedd rhaid prynu cymaint o Special K?

Agnes - Oedd. A ti'n gwybod pam?

Brian - Pam?

Agnes - Mae Rhodri a Beca yn bwyta tunelli ohono fe...

Brian - Pan roeddwn i'n hogyn...Uwd roedden ni'n gael i fwyta i frecwast...

Agnes - Uwd?

Brian - Ia. Haf, gwanwyn, hydref, gaeaf...Dim ots pa adeg o'r flwyddyn oedd hi, roedd Mam wastad yn rhoi llond powlen o uwd o fy mlaen i...

Agnes - Mae uwd yn dda iti.

Brian - Dyna ni! Dyna'r cwbl o'r neges yn y car...

Agnes - Brian?

Brian - Beth?

Agnes - Paid ag edrych nawr - reit? Ond mae Wendy Keating yn gwthio troli draw fan'co...

Brian - Wendy pwy?

Agnes - Wendy Keating. Y nyrs yna wnaeth fy mwrw fi...Dere! Mewn â ni i'r car cyn iddi ein gweld ni...

Wendy - Prynhawn da, Sister Rees...

Agnes - Wendy.

Wendy - Wel, dyma beth yw sypreis...

Agnes - Ie...

Wendy - Bob tro dw i'n dod i siopa i'r ... what's supermarket in Welsh?

Brian/Agnes - Archfarchnad...

Wendy - I'r archfarchnad. Dw i wastad yn cwrdd â ti.

Agnes - Sut mae pethau erbyn hyn?  
 Wendy - So-so.  
 Agnes - Ydych chi wedi llwyddo i gael gwaith eto?  
 Wendy - Ddim eto...  
 Agnes - Ond ydych chi'n dal i edrych?  
 Wendy - Still hoping something will turn up...Are you going to introduce us then...?  
 Agnes - Brian....Dyma Wendy...Wendy...Brian...Fy ngwr i.  
 Wendy - Neis cwrdd â ti, Brian.  
 Brian - Neis cyfarfod â chi hefyd...  
 Agnes - Rhodri! Paid â canu'r corn yna!  
 Wendy - Lively kid.  
 Brian - Ydy, mae o...  
 Agnes - Brian? Dw in meddwl ei bod hi'n well i ni fynd...  
 Brian - Ydy mae hi. Neis eich cyfarfod chi, Wendy.

## Golygfa 2

Arwyn - Ond pam?  
 Jenny - Oes rhaid i fi roi rheswm dros bob un dim?  
 Arwyn - Dw i'n credu fod hawl gyda fi wybod pam. Pam, Jenny?  
 Jenny - Wnei di stopio gofyn 'pam' trwy'r amser?  
 Arwyn - Ddim tan roi di ateb call i fi. Dw i ddim yn dy ddeall ti... Dw i ddim yn dy ddeall ti o gwbl...I ddechrau dw i'n cynnig trefnu mynd â ti i Venice i ddathlu pen-blwydd ein priodas ni...Ond dwyt ti ddim eisiau hynny...  
 Jenny - Arwyn, plis rho'r gorau iddi wnei di?  
 Arwyn - O.K. Iawn. Awn ni ddim i Venice.  
 Jenny - Does dim eisiau iti fod yn sarcastig...  
 Arwyn - Fyddai lot o bobl wrth eu boddau yn cael mynd i Venice...Ond ddim ti...Ti ddim eisiau mynd i Venice...Smo Venice yn apelio atat ti...O.K....Iawn ...  
 Jenny - Digon, reit?  
 Arwyn - Ond mae hi'n dal yn ben-blwydd priodas arnon ni yr un fath...Venice neu beidio, Jenny, rydyn ni'n dal wedi bod yn briod am ddeuddeg mlynedd...  
 Jenny - Do, dw i'n gwbod...  
 Arwyn - A mae deuddeg mlynedd yn dipyn o gamp...Mae deuddeg mlynedd o briodas yn yr oes sydd ohoni yn haeddu medal...Mae deuddeg mlynedd o briodas yn achos dathlu...  
 Jenny - Does gen i ddim eisiau mynd allan i restaurant...  
 Arwyn - Pam?  
 Jenny - Achos fy mod i ddim eisiau!  
 Arwyn - Sbeit yw hyn ynte?  
 Jenny - Beth?  
 Arwyn - Dyma dy ffordd di o ddial arna i...  
 Jenny - Am beth yn y byd mawr rwyt ti'n siarad?  
 Arwyn - Achos fy mod i wedi gwahodd Mam yma i aros gyda ni heb siarad â ti gynta...  
 Jenny - Nage...  
 Arwyn - Ie!  
 Jenny - Na!  
 Arwyn - Ti'n bod yn sbetlyd! Hollol sbetlyd, Jenny!  
 Jenny - Ti wedi camddeall yn llwyr!  
 Arwyn - Na, dw i ddim! Dw i'n deall yn iawn beth yw dy gêm fach di! Ond mae Mam eisiau help. Mae mam eisiau gofal. A mae Mam eisiau pobl o'i chwmpas hi sy'n ei charu hi!  
 Jenny - A dyna'n union beth rydw innau eisiau hefyd!

## Synopsis

Things are going from bad to worse in the Saunders household after Jenny had declined Arwyn's invitation to go for a weekend break to Venice. The fact that Arwyn's mother is still living with them has not helped matters.

## Test yourself

1. What is the Welsh for 'She wants to know'?
  - a) Mae hi'n eisiau gwybod
  - b) Mae hi angen gwybod
  - c) **Mae hi eisiau gwybod**
2. How would you translate 'I'm hungry' into Welsh?
  - a) **Dw i eisiau bwyd**
  - b) Dw i eisiau diod
  - c) Dw i eisiau cinio
3. What is the word in south Wales for 'to hide'?
  - a) cwart
  - b) **cwato**
  - c) costio
4. How would you say 'He's been out drinking' - emphasising 'been out drinking'?
  - a) Mae e wedi bod allan yn yfed
  - b) **Wedi bod allan yn yfed mae o**
  - c) Fo sydd wedi bod allan yn yfed
5. How would you say 'according to Arwyn' in Welsh?
  - a) **Yn ôl Arwyn**
  - b) I nôl Arwyn
  - c) Nôl Arwyn
6. How would you translate 'drowning my sorrows' into Welsh?
  - a) Boddi fy nheimpladau
  - b) Boddi fy meddyliau
  - c) **Boddi fy ngofidiau**